

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 9 Mai 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd F. Akhtar (Cadeirydd)

## Y Cynghorwyr:

F. Akhtar, C.A. Davies, W.R.A. Davies, T.A.J. Davies (In place of H.B. Shepardson), H.L. Davies, D.C. Evans, R.E. Evans, S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, H.I. Jones, G.B. Thomas and A.Vaughan Owen

## Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

## Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel  
H. Morgan, Rhelwr Datblygu Economaidd  
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd  
I. Llewelyn, Executive Board Support Manager  
R. Stradling, Business & Projects Manager  
R James, Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Siambr a Rhag-Ystafell, - 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. SA31 1LE - 10.00 - 11.05 yb**

## 1. PENODI CADEIRYDD AM WEDDILL Y FLWYDDYN DDINESIG 2018/19.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** benodi'r Cynghorydd F. Akhtar yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn y cyngor 2018/2019.

## 2. DATGAN BUDDIANAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIP A NODWYD MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Cafwyd y datganiadau canlynol o fuddiant:-

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Math o Fuddiant
J. Gilasbey		Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli - Caniatawyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau iddi siarad ond nid pleidleisio
Ann Davies	5 – Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 - Diweddariad Mehefin 2019	Amcan Llesiant 7 - Landlord Preifat
G. Thomas	5 – Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 - Diweddariad Mehefin	Amcan Llesiant 7 - Perchennog ar dŷ gwag

	2019	
Arwel Davies	5 – Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 - Diweddariad Mehefin 2019	Ymddiriedolwr Ymddiriedaeth Letitia Cornwallis
Ann Davies	6 – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Fersiwn Drafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefir	Wedi cyflwyno safle i'w gynnwys yn y cynllun diwygiedig
G. Thomas	6 – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Fersiwn Drafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefir	Mae aelodau'r teulu wedi cyflwyno safle i'w gynnwys yn y cynllun diwygiedig ac wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig
A Vaughan Owen	6 – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Fersiwn Drafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefir	Mae perthynas wedi cyflwyno safle i'w gynnwys yn y cynllun diwygiedig

### 3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd H. Shepardson.

### 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

### 5. STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2018-23 - DIWEDDARIAD DRAFFT MEHEFIN 2019

(NODER: Roedd y Cynghorwyr Ann Davies, Arwel Davies a Gareth Thomas eisoes wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 - Diweddariad Drafft Mehefin 2019 mewn perthynas â'r Cynlluniau Cyflawni Llesiant canlynol a oedd yn perthyn i'w gylch gwaith:-

- Amcan Llesiant 2. - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw
- Amcan Llesiant 6 – Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir;
- Amcan Llesiant 7 – Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael;
- Amcan Llesiant 8 – Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra;
- Amcan Llesiant 14 – Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at Amcan Llesiant 2 ac at y modd yr oedd y Cyngor yn bwriadu gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i fuddsoddi mewn uwchraddio cyfleusterau hamdden lleol.

Dywedodd y Rheolwr Busnes a Phrosiectau y byddai hyn yn cael ei wneud gan swyddogion sy'n rhoi cyngor a chymorth i'r awdurdodau hynny ar sut i hyrwyddo gweithgareddau yn eu parciau a helpu i wneud y defnydd gorau o'u cyfleusterau. Gallai hynny hefyd gynnwys cyfeirio at wahanol ffynonellau grant a rhoi cymorth i gyflwyno ceisiadau am grant.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai'r Cyngor yn adolygu ac yn gweithredu gwell llwybr o ran darpariaeth nofio er mwyn galluogi cyfranogwyr i gyrraedd eu potensial llawn (mae Amcan Llesiant 2 yn cyfeirio at hyn).

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai elfen o ailstrwythuro yn yr Is-adran Hamdden, gan gynnwys cyflogi staff ychwanegol i addysgu nofio, gyda'r nod yn y pendraw o gael pob plentyn i nofio.

Cyfeiriwyd at y gost i ysgolion o gymryd rhan mewn gwersi nofio ac i gais blaenorol y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Addysg a Phlant i ariannu'r cyfraniad hwnnw o £150k ar ran ysgolion at y diben hwnnw (Mae cofnod 7 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth yn cyfeirio at hyn). Er bod y Pwyllgor yn cydnabod ymateb y Cyfarwyddwr i'r cais hwnnw a'r rhesymau pam nad oedd mewn sefyllfa i gytuno â hynny, teimlwyd, o ystyried pa mor bwysig oedd hi i blant allu nofio, y dylid gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ailystyried ariannu'r costau hyn.

Atgoffwyd y Pwyllgor, er bod cost y gwersi nofio am ddim i ysgolion, roedd y gost ei hun yn ymwneud â darparu cludiant yn unig.

- Mewn ymateb i gwestiwn ar Amcan Llesiant 7 ar ailddefnyddio tai gwag, cadarnhaodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, er bod gan y Cyngor bwerau cyfreithiol i ddweud wrth berchenogion am adnewyddu'r eiddo hynny, a oedd yn golygu proses gyfreithiol hirfaith, y cam cyntaf fyddai trafod â'r perchenogion i uwchraddio eu heiddo yn wirfoddol, ac amcangyfrifir bod 2,500 o'r rhain yn y sir.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

- 5.1 Bod Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 – Diweddariad Drafft Mehefin 2019 yn cael ei derbyn;**
- 5.2 Gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ystyried talu'r gost a amcangyfrifir yn £150k y mae'n rhaid i ysgolion cynradd ei thalu er mwyn darparu gwersi nofio fel rhan o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2**

#### **6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033 FERSIWN DDRAFFT O'R STRATEGAETH CYN-ADNEUO A FFEFRIR**

(NODER:

1. Gan fod y Cynghorydd G.B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem gan y Pwyllgor;
2. roedd y Cynghorwyr A. Davies ac A.Vaughan Owen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach).

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 a luniwyd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 10 Ionawr, 2018 i ddechrau ar y gwaith o baratoi cynllun diwygiedig a oedd yn cynrychioli carreg filltir bwysig i'r Cyngor o ran cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i baratoi cynllun cyfredol ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal sy'n dod o fewn awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys 344 o sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd rhwng 12 Rhagfyr 2018 a 8 Chwefror 2019. Roedd y sylwadau hynny, ynghyd ag ymatebion ac argymhellion y swyddogion a chefnidir y strategaeth a ffefrir, wedi'u cynnwys yn yr atodiadau canlynol i'r adroddiad:-

- Atodiad 1 – Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir – Cefndir;
- Atodiad 2 – Strategaeth a Ffefrir – Crynodeb o'r Sylwadau a'r Ymatebion - Argymhellion;
- Atodiad 3 – Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol – sylwadau a ddaeth i law;
- Atodiad 4 – Adroddiad Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – sylwadau a ddaeth i law;
- Atodiad 5 – Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol – sylwadau a ddaeth i law

Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 7 Mai a byddai'r Cyngor yn ei ystyried ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol ar 15 Mai, 2019.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cadarnhaodd y Rheolwr Blaengynllunio, mewn ymateb i gwestiwn ar gynnwys darpar safleoedd yn y CDLI diwygiedig, y byddai'n rhaid unrhyw unigolyn neu sefydliad, gan gynnwys y Cyngor Sir, sy'n dymuno cynnwys darn o dir, ei gyflwyno i'r Cyngor cyn diwedd Awst, 2018. Roedd cyfanswm o 926 o safleoedd wedi'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwnnw ac roedd tua 4,000 o ymatebion wedi'u derbyn yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Ar hyn o bryd, roedd yr adran yn dadansoddi pob un o'r 926 o safleoedd er mwyn asesu eu priodoldeb ac roedd disgwyl y byddai'r broses honno'n cael ei chwblhau erbyn diwedd haf 2019. Yn dilyn yr asesiad hwnnw, pe bai'n dod i'r amlwg bod safle yn anaddas, neu'n mynd yn groes i Strategaeth y Cynllun neu bolisi cenedlaethol, ni fyddai'n cael ei ystyried yn briodol i'w gynnwys yn y Cynllun Adneuo.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr arfer o ran 'bancio tir', dywedwyd wrth y Pwyllgor bod dros 10,000 o unedau heb eu cwblhau ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin, gyda chanran uchel o'r rhain heb ddynodi eu bwriad ar gyfer y safle. Fel rhan o'r broses yn ymwneud ag adolygu'r Cynllun

Datblygu Lleol presennol byddai'r safleoedd yn cael eu herio o ran eu cynnwys yn y dyfodol ac os bernir na fyddent yn debygol o gyflwyno'r safleoedd ar gyfer eu datblygu neu'u bod yn anaddas, ni fyddai safleoedd o'r fath yn cael eu cynnwys na'u dyrannu eto yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL BOD:**

- 6.1 bod y sylwadau a ddaeth i law o ran y Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir yn cael eu nodi a bod yr argymhellion yn cael eu cadarnhau**
- 6.2 bod y sylwadau ddaeth i law o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu nodi a'r argymhellion yn cael eu cadarnhau**
- 6.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion gyflawni'r canlynol:-**
  - newid y Strategaeth a Ffefrir yng ngoleuni'r argymhellion sy'n deillio o'r prosesau uchod a'r dystiolaeth sy'n rhan o baratoi'r Fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol;
  - gwneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Fersiwn Drafft y Strategaeth a Ffefrir.

## **7. DIWEDDARIAD GWEITHREDU CRAFFU**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a nodai'r hyn a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AR GYFER 2019/20**

Bu'r Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2019/20 a oedd yn nodi manylion materion ac adroddiadau i'w hystyried yn ystod y blwyddyn y cyngor.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith drafft 2019/20.**

## **9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 2 Gorffennaf 2019.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2019.**

**10. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD  
AR 28AIN MAWRTH 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor  
oedd wedi ei gynnal ar 28 Mawrth 2019 gan eu bod yn gywir.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**